CYTUNDEB LEFEL LEOL

Rhwymedigaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau i ddarparu lleoliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â rhaglenni nyrsio, bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd, ffisigwyr cyswllt a gwyddor gofal iechyd a gomisiynir.

Cynnwys

Rhagair 2
1. Y Partïon 3
2. Dehongli, Llofnodwyr awdurdodedig a phwyntiau cyswllt 3
3. Cyfnod y cytundeb 4
4. Pwrpas y Cytundeb 4
5. Amcanion 5
6. Darparu a Rheoli Profiadau Dysgu i Ymarfer 5
7. Trefniadau ariannol 9
8. Goruchwylio ac asesu 9
9. Cyfleusterau yn yr Amgylchedd Dysgu i Ymarfer 11
10. Recriwtio a dethol 12
11. Paratoi a chynefino 13
12. Datblygu, Adolygu ac Ansawdd Rhaglenni 15
13. Sicrhau Ansawdd 16
14. Cwynion a phryderon 17
15. Diswyddo ac atal dros dro 18
16. Yswiriant ac atebolrwydd 18
17. Proses Datrys Anghydfodau 19
18. Terfynu 19
19. Hysbysiadau 20
21. Llofnodwyr 21
21. Geirfa 22
Atodiad 1. Amserlenni comisiynu addysg dangosol 26
Atodiad 2. Meincnod ar gyfer y broses adrodd am ddigwyddiadau 27

Rhagair

Mae'r Cytundeb Lefel Leol hwn yn nodi'r rhwymedigaethau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau ar gyfer darparu lleoliadau dysgu i ymarfer ar draws sefydliadau'r GIG, Gofal Cymdeithasol a'r sector Annibynnol yng Nghymru.

Mae'r Cytundeb yn cael ei gymeradwyo gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yng nghyswllt y Partïon a darparu cyfleoedd dysgu i ymarfer sy'n ymwneud â rhaglenni nyrsio, bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd, ffisigwyr cyswllt a gwyddor gofal iechyd a gomisiynir.

Rwy'n cymeradwyo'r Cytundeb hwn ar ran Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Enw: Lisa Llewelyn

Swydd: Cyfarwyddwr Addysg Nyrsys a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol AaGIC

Llofnod (ar ran AaGIC):

Dyddiad: 08.08.22.

1. Y Partïon

Mae'r Cytundeb hwn rhwng:

a. [Add in name of the education provider Higher Education Institution (HEI) whose address is [add in address] ("**SAU**")

b. [Add name of Placement Provider] y mae ei gyfeiriad yn [add in address] ("**y Darparwr Lleoliad**")

Yn unigol, 'Parti' a gyda'i gilydd, y 'Partïon'.

2. Dehongli, Llofnodwyr awdurdodedig a phwyntiau cyswllt

Oni nodir yn wahanol yng nghorff y Cytundeb hwn, bydd y diffiniadau a nodir yng nghymal 21 (Geirfa) yn berthnasol yn y Cytundeb hwn.

Bwriedir i'r Cytundeb hwn gael ei lofnodi gan gynrychiolwyr awdurdodedig y Partïon ac mae'n cynnwys yr holl Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer o fewn ffiniau'r Darparwr Lleoliad:

- Ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch, y Deon/Pennaeth yr Ysgol fyddai hwn.
- Ar gyfer Byrddau Iechyd, y Cyfarwyddwyr Nyrsio, Bydwreigiaeth, Therapïau neu Wyddonydd Gofal Iechyd fel sy'n briodol fyddai hwn.
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai hwn ar gyfer lleoliadau gofal cymdeithasol.
- Os oes angen Cytundeb Lefel Leol ar gyfer lleoliad unigol, byddai'n cael ei lofnodi gan Reolwr y Gwasanaeth.

2.1 Dyma lofnodwyr awdurdodedig y Partïon at ddibenion y Cytundeb hwn:

Sefydliad Addysg Uwch:

Darparwr Lleoliad[1]:

2.2 Dyma'r pwyntiau cyswllt dynodedig at ddibenion y Cytundeb hwn:

Sefydliad Addysg Uwch:

Darparwr Lleoliad[2]:

[1] Ychwanegwch enwau ar gyfer pob Parti, fel sy'n briodol
[2] Ychwanegwch enwau ar gyfer pob Parti, fel sy'n briodol

3. Cyfnod y cytundeb

3.1 Daw'r Cytundeb hwn i rym o
(y "Dyddiad Cychwyn").

3.2 Bydd y Cytundeb yn parhau am gyfnod o 24 (dau ddeg pedwar) mis o'r Dyddiad Cychwyn oni bai ei fod yn cael ei derfynu yn unol â thelerau'r Cytundeb.

3.3 Yn amodol ar gymal 20 (Amrywio), gellir adnewyddu'r Cytundeb hwn drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y Partïon.

4. Pwrpas y Cytundeb

4.1 Darparu addysg a hyfforddiant o safon uchel i weithwyr gofal iechyd proffesiynol Mae'n dibynnu ar bartneriaeth effeithiol rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), a Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'r GIG/Gofal Cymdeithasol/ Partneriaid Dysgu i Ymarfer Annibynnol (a elwir yn Ddarparwyr Lleoliadau yn y ddogfen hon) sy'n ymwneud â darparu Profiadau Dysgu i Ymarfer Lleoliad.

4.2 Darperir Profiadau Dysgu i Ymarfer mewn ystod eang o sectorau iechyd a gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, er enghraifft mewn Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, meddygfeydd, gwasanaethau gofal cymdeithasol, cartrefi gofal, ysgolion, lleoliadau yn y sector gwirfoddol a lleoliadau annibynnol.

4.3 Datblygwyd y Cytundeb hwn gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar y cyd â Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau.

4.4 Mae'r Cytundeb hwn yn ymrwymiad ffurfiol rhwng y Partïon a'i fwriad yw nodi'r disgwyliadau a'r rhwymedigaethau rhwng pob Parti. Nid yw hwn yn Gytundeb y gellir ei orfodi'n gyfreithiol. Fodd bynnag, disgwylir i'r Partïon anrhydeddu eu rhwymedigaethau priodol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Partïon yn uwchgyfeirio materion i Addysg a Gwella Iechyd Cymru lle na lynir wrth y Cytundeb hwn. Bydd unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys yn unol â'r Broses Datrys Anghydfod a amlinellir yng nghymal 17 y Cytundeb hwn.

4.5 Mae'r Cytundeb hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer dyrannu myfyrwyr i ymgymryd â dysgu seiliedig ar hyfedredd fel rhan o'u haddysg broffesiynol ffurfiol i fodloni gofynion cyrff statudol a phroffesiynol. Ni fwriedir i'r Cytundeb awgrymu hawliau llwyr neu gyfyngedig i Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer. Fodd bynnag, mae staff ymarfer o Ddarparwyr Lleoliadau yn cyfrannu at ddatblygu ymarfer ac elfennau damcaniaethol cwricwla gyda'r nod o sicrhau cydberchnogaeth ar raglenni.

4.6 Mae'r Cytundeb hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer lleoliadau ymarfer sy'n ymwneud â'r holl raglenni gofal iechyd a gomisiynir (nyrsio, bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd, ffisigwyr cyswllt, gwyddor gofal iechyd).

5. Amcanion

5.1 Mae Partïon y Cytundeb hwn yn dymuno cydweithredu ar y sail ganlynol:

a. Cyflawni swyddogaethau, dyletswyddau a chyfrifoldebau yn y ffordd fwyaf effeithlon.
b. Darparu cymorth goruchwyliol i fyfyrwyr sy'n cyd-fynd â safonau rheoleiddio.
c. Darparu adnoddau hyblyg y gellir eu targedu at feysydd blaenoriaeth.
d. Sicrhau ffocws ar ddatblygu medrusrwydd myfyrwyr i'r pwynt cofrestru.
e. Sicrhau bod y capasiti a'r gallu angenrheidiol yn eu lle i gefnogi myfyrwyr i gyflawni eu canlyniadau dysgu i ymarfer.
f. Cefnogi gwaith tîm effeithiol rhwng y ddau Barti a rhwng myfyrwyr a'r tîm iechyd/gofal cymdeithasol ehangach y byddant yn rhyngweithio ag ef fel rhan o'u lleoliad ymarfer.
g. Datblygu model gweithredu effeithiol o ran goruchwylio ac asesu myfyrwyr o ran diogelwch y cyhoedd.

5.2 Mae rolau a chyfrifoldebau'r Partïon wedi'u nodi yn y Cytundeb hwn ond er mwyn bod yn glir, gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Fel comisiynydd addysg gweithlu anfeddygol GIG Cymru, mae AaGIC yn cynghori Llywodraeth Cymru bob blwyddyn ynghylch y nifer ofynnol o leoedd hyfforddi gofal iechyd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gweithlu GIG Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys addysg broffesiynol israddedig ac ôl-raddedig. Mae Tîm Comisiynu ac Ansawdd Addysg AaGIC yn ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau ansawdd gan gynnwys cynllunio ansawdd, rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, a gwella ansawdd yng nghyswllt contractau addysg Sefydliadau Addysg Uwch.

Sefydliad Addysg Uwch (SAU): Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn cefnogi'r Darparwr Lleoliad a'r myfyriwr i sicrhau bod profiadau dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer yn bodloni gofynion myfyrwyr unigol a chanlyniadau eu rhaglen. Gan fod cyfran sylweddol o raglenni yn gofyn i fyfyrwyr ymgymryd â lleoliadau ymarfer, mae'r berthynas rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau yn hanfodol i sicrhau bod y rhaglen yn gyflawn ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgu a datblygu pob myfyriwr.

Darparwr Lleoliad: Bydd y Darparwr Lleoliad yn gweithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Addysg Uwch ar sail anghynhwysol i ddarparu Profiadau Dysgu i Ymarfer sy'n galluogi'r myfyrwyr i gymhwyso eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymddygiadau i ddatblygu hyfedredd a hyder mewn ymarfer. Bydd Darparwyr Lleoliadau yn gweithio yn unol ag ysbryd y Cytundeb hwn i sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad cadarnhaol o ymarfer a'u bod yn gallu symud ymlaen drwy eu rhaglenni yn unol â gofynion rheoleiddio'r corff llywodraethu.

6. Darparu a Rheoli Profiadau Dysgu i Ymarfer

6.1 Pwrpas Profiadau Dysgu i Ymarfer yw galluogi myfyrwyr i sicrhau'r canlynol dod yn ymarferwyr hyderus, hyfedr a datblygu'r wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r ymddygiad sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, trugarog ac effeithiol fel rhan o waith di-dor, amlddisgyblaeth a rhyngbroffesiynol.

6.2 Bydd AaGIC yn cyhoeddi 'Cynllun Lleoliad Blynyddol' i helpu Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau i reoli capasiti lleoliadau ac i sicrhau bod dyraniadau priodol o niferoedd myfyrwyr yn cyd-fynd â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd a rhagamcaniadau gweithlu cynaliadwy (gweler Atodiad 1).

Pennir nifer, natur a lleoliad y cyfleoedd dysgu i ymarfer mewn lleoliadau unigol drwy drafodaethau gweithredol rhwng y Darparwr Lleoliad a sefydliadau Addysg Uwch partner, gan adlewyrchu nifer y myfyrwyr a gomisiynir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

6.3 Bydd AaGIC yn darparu swyddogaeth ymateb lle mae angen i AaGIC gymryd rhan er mwyn helpu i liniaru materion capasiti lleoliadau sy'n cael eu codi gan Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau. Bydd swyddogaeth ymateb AaGIC yn cynnwys uwchgyfeirio materion capasiti lleoliadau nad ydynt yn cael eu datrys ar unwaith rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr lleoliadau, ac sy'n elwa o drafodaeth ar lefel Pennaeth Adrannol neu Ddirprwy Gyfarwyddwr/Cyfarwyddwr lle bo angen.

6.4 Os bydd y Darparwr Lleoliad yn dod i wybod na all fodloni'r niferoedd y cytunwyd arnynt, bydd yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch cyn gynted â phosibl, ac yn gweithio gydag ef i geisio darparu trefniadau eraill.

6.5 Os na fydd lleoliad ar gael ar ôl cael ei ddyrannu, lle bo hynny'n bosibl, bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gwneud pob ymgais, mewn partneriaeth â'r Darparwr Lleoliad, i adleoli'r myfyriwr i leoliad arall.

6.6 Gall y Darparwr Lleoliad, ar y cyd â'r Sefydliad Addysg Uwch, atal ardal lleoliad unigol yn achos digwyddiad na ellir ei ragweld neu argyfwng tybiedig. Bydd y Partïon yn sicrhau bod lleoliadau eraill yn cael eu dyrannu ar y cyfle nesaf sydd ar gael, gan ganiatáu amser rhesymol i wneud y trefniadau angenrheidiol, ac mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw effaith ar fyfyrwyr.

6.7 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gweithio gyda Darparwyr Lleoliadau i drefnu i ddarparu isafswm cyffredinol o 4 wythnos o Addysg Ryngbroffesiynol yn ystod rhaglen. Gellir rhannu diwrnodau lleoliadau Addysg Ryngbroffesiynol ar draws y rhaglen gyfan, gellir defnyddio gweithgareddau dysgu enghreifftiol mewn lleoliad ymarfer neu Sefydliad Addysg Uwch, ac nid oes angen eu cyflwyno mewn un bloc dysgu 4 wythnos o reidrwydd.

6.8 Bydd AaGIC yn gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau i gefnogi ansawdd lleoliadau, arloesi a gwella ac i helpu mesurau sy'n cynyddu capasiti lleoliadau.

6.9 Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau bod unrhyw adroddiadau perthnasol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y Rheoleiddiwr Iechyd neu'r Corff Proffesiynol sy'n cael effaith sylweddol ar y lleoliadau sydd ar gael yn cael eu huwchgyfeirio i'r Darparwr Lleoliad ac i AaGIC. Yn yr un modd, bydd y Darparwr

Lleoliad yn uwchgyfeirio adroddiadau perthnasol yr ASA, y Rheoleiddiwr Iechyd neu'r Corff Proffesiynol sy'n effeithio ar leoliadau at y

Sefydliad Addysg Uwch. Rhaid i'r Sefydliad Addysg Uwch sy'n uwchgyfeirio pryder hefyd rannu gwybodaeth gyda'r Sefydliadau Addysg Uwch eraill gan ddefnyddio'r amgylchedd dysgu i ymarfer hwnnw.

6.10 Bydd y Partïon, gan weithio ar y cyd, yn sicrhau safonau a goruchwyliaeth y lleoliad dysgu i ymarfer yn cydymffurfio â'r safonau a osodir gan y cyrff proffesiynol a statudol perthnasol ac unrhyw feini prawf y cytunir arnynt yn lleol.

6.11 Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithio i gynnal archwiliadau addysgol ar y cyd o Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer lle mae myfyrwyr o wahanol Sefydliadau Addysg Uwch yn defnyddio'r un Lleoliadau.

6.12 Bydd lleoliadau ymarfer ar gyfer myfyrwyr yn cael eu trefnu gan Sefydliadau Addysg Uwch ar y cyd â staff Darparwyr Lleoliadau.[3] Yn ystod y cyfnodau hyn o ddysgu i ymarfer, bydd y myfyriwr yn gweithio dan gyfarwyddyd Goruchwylwyr Ymarfer ac aseswr/addysgwr ymarfer enwebedig (neu rôl gyfatebol).

6.13 Yn ystod cyfnodau o ddysgu i ymarfer, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i weithio gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth a bydd ganddynt fynediad, fel y bo'n briodol, at hanes achosion/cofnodion meddygol a gofal gyda'r gallu i ychwanegu data at y cofnodion hyn, gan gynnwys systemau papur ac electronig sydd ar gael.

6.14 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno y gall myfyrwyr ychwanegu sylwadau at gofnodion gofal cleifion (wedi'u cydlofnodi) yn ystod Profiadau Dysgu i Ymarfer fel y bo'n briodol a chyda goruchwyliaeth berthnasol, gallant gofnodi digwyddiadau critigol, astudiaethau achos a chyfrifon myfyriol dienw at ddibenion eu dulliau dysgu parhaus fel sy'n briodol/angenrheidiol. Bydd Darparwyr Lleoliadau yn atgyfnerthu cynnwys cynefino myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau cyfrinachedd, gofynion a gweithdrefnau diogelu data yn yr amgylchiadau hyn.

6.15 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod pob myfyriwr yn deall yr angen am ymddygiad priodol wrth ddarparu gofal, gan gynnwys yr angen i fyfyrwyr roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am eu statws fel myfyriwr a chael caniatâd i gymryd rhan yn eu gofal.

6.16 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd dysgu i ymarfer yng nghyswllt diogelu data, cyfrinachedd, a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd darparwyr lleoliadau'n sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau penodol y sefydliad sy'n ymwneud â'r canlynol:

[3] Mae Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'r GIG fel arfer yn trefnu lleoliadau myfyrwyr y Brifysgol Agored

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 – Oedolion a Phlant sydd mewn Perygl o Niwed, Cam-drin ac Esgeulustod, Adran 5: Rhywun mewn Swydd o Ymddiriedaeth
- Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) – i gynnwys Gweithdrefnau BIPBC.
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a DoLS
- Deddfwriaeth Diogelu Data

6.17 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i gydymffurfio â darpariaethau perthnasol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gofynion dyletswydd ansawdd a gonestrwydd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

6.18 Mae'r Partïon yn cadarnhau y byddant yn cadw at eu rhwymedigaethau yng nghyswllt Deddfwriaeth Diogelu Data. Mae'r Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn cytuno bod data personol sy'n ymwneud â'r myfyriwr yn cael ei gadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol ac yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Ni fydd y Darparwr Lleoliad yn defnyddio nac yn datgelu gwybodaeth bersonol y myfyriwr at unrhyw ddiben ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol i weinyddu Profiad Dysgu i Ymarfer myfyriwr. Dim ond os oes sail gyfreithiol dros wneud hynny a bod y gofynion angenrheidiol ar waith y dylid rhannu gwybodaeth rhwng y partïon.

6.19 Ac eithrio unrhyw ddigwyddiadau heb eu rhagweld, ni fydd myfyriwr yn cael ei symud o'r Amgylchedd Dysgu i Ymarfer y cytunwyd arno, ac eithrio pan fydd angen hynny oherwydd ad-drefnu brys neu fel rhan angenrheidiol o raglen addysgol myfyriwr. Bydd polisïau uwchgyfeirio Sefydliadau Addysg Uwch/Darparwyr Lleoliadau lleol yn cael eu mabwysiadu yn yr amgylchiadau arbennig hyn. Os bydd yr amgylchiadau hyn yn codi, bydd y Darparwr Lleoliad yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch ar unwaith.

6.20 Pan nad yw Amgylchedd Dysgu i Ymarfer yn darparu profiadau dysgu mwyach oherwydd newidiadau mewn darpariaeth iechyd/gofal cymdeithasol, dylid rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch ar unwaith er mwyn trefnu lleoliad arall yn ôl yr angen.

6.21 Ar ddiwedd pob lleoliad, bydd gofyn i fyfyrwyr werthuso eu profiadau i fonitro a gwella ansawdd Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer. Bydd gwybodaeth amserol a gesglir drwy'r broses werthuso yn cael ei rhannu rhwng y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn cyfarwyddo pob myfyriwr i lenwi a chyflwyno ffurflen adborth lleoliad ar ôl pob lleoliad. Bydd Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau yn cydweithio i sicrhau bod adborth gwerthuso ar gyfer lleoliadau yn nodi arferion gorau ac arloesedd yn ogystal ag unrhyw feysydd i'w gwella.

6.22 Os nad oes arolygon ar ôl lleoliadau wedi'u llunio'n barod, gall Darparwyr Addysg integreiddio'r templed gwerthuso ar ôl lleoliad canlynol a ddarperir gan AaGIC i'w systemau mewnol: https://forms.office.com/Pages/ShareFormPage.aspx?id=uChWuyjjgkCoVkM8ntyPrnKAv3cQ2m5Bt4l76tsw0lRURUFUOVRCQk1aTEFNSEdKNkVRV0UyUDlHNC4u&sharetoken=XrmdELNn5zOTWQNajYfi

6.23 Bydd y ddau Barti yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod Goruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer/addysgwyr yn trefnu, lle bynnag y bo modd, i oruchwylio ac asesu myfyrwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

6.24 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn cynnal, ac yn gwbl gyfrifol, am unrhyw system meddalwedd lleoliad sy'n cael ei defnyddio. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gweithio gyda Darparwyr Lleoliadau i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid a/neu hygyrchedd at systemau meddalwedd lleoliadau gan staff a myfyrwyr sy'n darparu lleoliadau. Y Sefydliad Addysg Uwch fydd yn gyfrifol am sicrhau bod defnyddwyr systemau meddalwedd lleoliad, gan gynnwys myfyrwyr, yn ymwybodol o'u hawliau o ran defnyddio a chofnodi gwybodaeth.

7. Trefniadau ariannol

7.1 Caiff bwrsarïau myfyrwyr ac unrhyw lwfansau a threuliau cysylltiedig eu tal drwy'r Sefydliad Addysg Uwch ac felly ni fydd y Darparwr Lleoliad yn talu i'r myfyriwr/myfyrwyr yn ystod unrhyw gyfnod o Brofiad Dysgu i Ymarfer.[4]

7.2 Bydd costau teithio fel gofyniad mewn Amgylchedd Dysgu i Ymarfer yn cael eu had-dalu i fyfyrwyr a gomisiynir gan y Sefydliad Addysg Uwch a byddant yn cael eu had-dalu gan AaGIC. Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i lofnodi'r taflenni amser fel adlewyrchiad cywir o gyfraniad y myfyriwr at weithgareddau'r lleoliad.[5]

8. Goruchwylio ac asesu

8.1 Bydd Darparwyr Lleoliadau yn sicrhau bod myfyrwyr bob amser yn parhau yn aelodau ychwanegol o'r gweithlu yn ystod dysgu i ymarfer a bod hyn yn bodloni gofynion polisi lleol a gofynion y corff rheoleiddio.

8.2 Bydd gan y Darparwr Lleoliad bolisïau a threfniadau addas i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, ymddygiad sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig, neu unrhyw driniaeth annheg arall yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

8.3 Yng nghyswllt datgeliad myfyriwr o anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau y mae am iddynt gael eu hystyried i gynorthwyo eu dulliau dysgu i ymarfer, bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn cymryd rhan mewn cyfarfod ar y cyd i drafod pa addasiadau rhesymol/asesiadau risg y gallai

[4] Caiff rhai myfyrwyr rhan-amser eu cyllido drwy eu cyflogwyr yn hytrach na thrwy'r cynllun bwrsariaeth

[5] Sylwch, yng nghyswllt 7.2 bod Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau GIG yn ad-dalu myfyrwyr rhan amser sy'n gyflogedig.

fod angen eu gwneud i ddiwallu anghenion unigolyn, ac a oes modd gwneud yr addasiadau rhesymol hynny cyn a/neu wrth ymgymryd â Phrofiadau Dysgu i Ymarfer.

8.4 Bydd y Darparwr Lleoliad yn sicrhau bod digon o staff priodol i ymgymryd â'r gwaith o oruchwylio ac asesu dysgu myfyrwyr, ac i fynd i hyfforddiant a diweddariadau goruchwyliwr ac asesydd/hyfforddwr ymarfer sy'n cydymffurfio â gofynion sefydliadol a gofynion rheoliadol a phroffesiynol y corff.[6]

8.5 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch/Darparwr Lleoliadau (fel y bo'n briodol) yn darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant i oruchwylio ac asesu dysgu i ymarfer myfyrwyr yn unol â gofynion cyrff proffesiynol a rheoleiddiol.

8.6 Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch yn darparu Darlithydd Cyswllt dynodedig i weithredu fel cyswllt rhwng y Sefydliad Addysg Uwch a phob Amgylchedd Dysgu i Ymarfer y caiff myfyrwyr eu dyrannu iddo. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn rhoi enwau'r Darlithwyr Cyswllt hyn a'r pwyntiau cyswllt ar eu cyfer i'r Darparwr Lleoliad.

8.7 Bydd staff Sefydliadau Addysg Uwch yn cysylltu â'r Darparwyr Lleoliadau sy'n ymwneud â goruchwylio ac asesu dysgu i ymarfer a byddant yn cael mynediad (lle bo hynny'n briodol) at leoliadau unigol ar ôl i'r aelod penodol o staff sy'n gyfrifol gytuno i hynny.

8.8 Bydd gan bob myfyriwr fynediad at Oruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer neu Addysgwyr Ymarfer (neu rôl gyfatebol)[7] yn ystod Profiadau Dysgu i Ymarfer a byddant yn gweithio gyda goruchwylwyr ac aseswyr/addysgwyr yn unol â gofynion rheoliadol a gofynion cyrff proffesiynol.

8.9 Wrth gynnal asesiadau cyfunol yn ymarferol, bydd yr Asesydd Ymarfer (neu rôl gyfatebol) yn cael cefnogaeth gan ei sefydliad i neilltuo digon o amser i asesu'r myfyriwr yn unol â gofynion rheoleiddiol a gofynion cyrff proffesiynol.

8.10 Bydd Goruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer, Addysgwyr Ymarfer (neu rolau cyfatebol) yn cefnogi myfyrwyr nad ydynt yn cyrraedd y lefelau hyfedredd gofynnol mewn ymarfer ac yn hwyluso cyfleoedd pellach, lle bo hynny'n briodol, i gyflawni canlyniadau dysgu gan ddefnyddio cynlluniau gweithredu pro-fforma'r rhaglen berthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Aseswyr Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer (neu rôl gyfatebol) yn sicrhau cyfathrebu amserol ag Aseswyr Academaidd a staff perthnasol Sefydliadau Addysg Uwch o ran datblygiad rhaglenni myfyrwyr.

[6] Cydnabyddir y gall y ddarpariaeth hyfforddiant amrywio ar draws rhaglenni. Ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth, mae gwaith paratoi'r goruchwyliwr ymarfer a'r asesydd yn cael ei ddarparu'n bennaf gan Hwyluswyr Addysg Ymarfer ac mae'n gyfrifoldeb y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'r GIG. Ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd, mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu a'i ariannu gan Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys cyrsiau gloywi sy'n cael eu darparu'n aml mewn lleoliadau ymarfer neu drwy ddysgu cyfunol.

[7] Cydnabyddir y gellir defnyddio termau gwahanol ar gyfer rolau goruchwyliwr ac aseswyr ymarfer ar draws meysydd nyrsio a bydwreigiaeth, proffesiynau perthynol i iechyd a gwyddor gofal iechyd. Gweler yr eirfa am eglurhad.

8.11 Bydd cydweithwyr, gan gynnwys y Sefydliad Addysg Uwch, yn rhoi cefnogaeth briodol i Oruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer (neu rôl gyfatebol) os bydd sefyllfa'n codi lle nad yw myfyriwr yn bodloni'r lefelau hyfedredd gofynnol yn unol â gofynion y rhaglen.

8.12 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn darparu gwybodaeth i staff sy'n ymwneud â goruchwylio ac asesu dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer myfyrwyr o ran gofynion penodol y rhaglenni addysg.

8.13 Bydd yn ofynnol i Oruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer asesu cymhwysedd a hyfedredd myfyrwyr yn erbyn meini prawf a bennir yn y rhaglen astudio benodol, a darparu adroddiadau angenrheidiol i'r myfyriwr yn ystod ac ar ddiwedd eu profiad yn y lleoliad gan ddefnyddio'r profforma perthnasol.

8.14 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gweithio gyda Hwyluswyr Addysg Ymarfer/Hwyluswyr Addysg yn y Cartref/cydlynwyr lleoliadau (a rolau cyfatebol) i ddarparu cefnogaeth briodol i Oruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer er mwyn iddynt allu rheoli myfyrwyr mewn ffordd deg a thryloyw.

8.15 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn rhoi gwybod i'r Darparwr Lleoliad ar unwaith os nad yw'r myfyriwr wedi cofrestru ar raglen Sefydliad Addysg Uwch mwyach.

9. Cyfleusterau yn yr Amgylchedd Dysgu i Ymarfer

9.1 Mae'r Darparwr Lleoliadau yn cytuno i ddarparu cyfleusterau i gefnogi myfyrwyr sy'n gwneud Profiadau Dysgu i Ymarfer mewn meysydd gwasanaeth, gan gynnwys lle bo rhai ar gael, mynediad i lyfrgelloedd ac adnoddau dysgu aml-broffesiynol.

9.2 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i sicrhau bod gan fyfyrwyr sy'n ymgymryd â Phrofiadau Dysgu i Ymarfer, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, gyfleusterau ac amwynderau gwaith tebyg i'r rhai sydd ar gael i'w weithwyr, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau TG a rhwydweithiau wi-fi diogel. Bydd y Darparwr Lleoliad yn cyfeirio cyfleusterau llyfrgell a TG at bob myfyriwr gofal iechyd israddedig ac ôl-raddedig.[8]

9.3 Lle bynnag y bo modd, mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i sicrhau bod swyddfa ar gael ym mhob Amgylchedd Dysgu i Ymarfer (cysylltiad ffôn ac electronig) er mwyn i staff o'r Sefydliad Addysg Uwch allu cwrdd â myfyrwyr yn rhithiol neu wyneb yn wyneb pan fo angen.

[8] Lle bynnag y bo modd, dylid darparu mynediad i'r llyfrgell a chyfleusterau astudio tawel. Mae hyn yn cynnwys mynediad wedi'i gyfeirio at wasanaeth ymholiadau llyfrgell ysbyty leol, casgliadau wedi'u hargraffu y gellir chwilio amdanynt gan ddefnyddio catalog Chwilio Llyfrgell GIG Cymru, adnoddau llyfrgell digidol GIG Cymru (cofnodion, crynodebau tystiolaeth, cronfeydd data, canllawiau), cyfrifiaduron rhwydwaith/annibynnol gyda darpariaeth i gael mynediad at e-bost prifysgol, rhyngrwyd, ac amrywiaeth o feddalwedd Office priodol, rhwydwaith di-wifr diogel sy'n galluogi myfyrwyr i gael mynediad at y rhyngrwyd (eduroam wi-fi; gwasanaethau llungopïo, argraffu a sganio).

10. Recriwtio a dethol

10.1 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwyr Lleoliadau yn cadarnhau eu bod, drwy'r broses archwilio addysgol, yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, fel y caiff ei diwygio, ei disodli, ei chydgrynhoi neu ei hailddeddfu o bryd i'w gilydd, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol arall.

10.2 Drwy gydol y broses recriwtio a dethol, mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail nodweddion gwarchodedig, anableddau nac anghenion dysgu ychwanegol.

10.3 Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau, yn ystod y broses recriwtio/dethol, y ceir datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob myfyriwr sy'n dilyn rhaglenni gofal iechyd.

10.4 Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch a'r Darparwyr Lleoliadau yn sicrhau bod myfyrwyr yn tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

10.5 Bydd y Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau yn sicrhau bod unrhyw ddatgeliadau, rhybuddion neu euogfarnau sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer sy'n digwydd cyn neu ar ôl cofrestru myfyriwr ar raglen yn cael eu cyfeirio ar unwaith fel sy'n briodol i baneli Addasrwydd i Ymarfer. Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, cynrychiolaeth Darparwyr Lleoliadau ar baneli Addasrwydd i Ymarfer. Bydd paneli'n penderfynu a yw datgeliad yn caniatáu i fyfyriwr fynd ymlaen ar raglen, neu a oes angen unrhyw fesurau goruchwylio ychwanegol.

10.6 Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gofyn i fyfyrwyr lofnodi ffurflen hunanddatgelu a nodi, lle bo angen, unrhyw benderfyniadau anffafriol megis euogfarnau, rhybuddion, erlyniadau sy'n aros neu unrhyw agweddau eraill ar iechyd, amgylchiadau personol a/neu amgylchiadau proffesiynol myfyriwr sy'n effeithio ar ei berfformiad a/neu ymddygiad.

10.7 Bydd y Darparwr Lleoliad yn sicrhau cynrychiolaeth a chyfranogiad staff ymarfer yn y broses o recriwtio a dethol a phrosesau myfyrwyr ar gyfer rhaglenni. Lle bo'n briodol, bydd Sefydliadau Addysg Uwch hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr, defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y prosesau recriwtio a dethol.

10.8 Mae'r Sefydliadau Addysg Uwch yn ymrwymo i sicrhau y bydd yn rhaid i bawb sy'n ceisio ymuno â rhaglen gofal iechyd ddarparu geirdaon gan eu cyflogwr a/neu eu man astudio diweddaraf.

10.9 Bydd Lleoliadau Ymarfer sy'n gofyn i fyfyrwyr yrru fel elfen allweddol o'u Profiadau Dysgu i Ymarfer yn nodi'r gofyniad yn glir i'r Sefydliad Addysg Uwch.

11. Paratoi a chynefino

11.1 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n ymgymryd â Phrofiadau Dysgu i Ymarfer wedi cwblhau'r holl hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n berthnasol i ofynion y Lleoliad sy'n cyd-fynd ag *elfennau gorfodol Fframwaith Hyfforddiant Sgiliau Craidd y DU*. Dylai proses gynefino Sefydliadau Addysg Uwch gynnwys ymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol – gweler e-ddysgu gorfodol AaGIC: Rhestr orfodol eDdysgu.docx (live.com)

- Diogelu plant ac oedolion gan gynnwys Strategaeth *Prevent* y DU ac ymwybyddiaeth o fathau o gam-fanteisio.
- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth gan gynnwys Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Seiberddiogelwch yn egluro cyfrifoldebau myfyrwyr.
- Iechyd a diogelwch.
- Atal a rheoli heintiau.
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth.

11.2 Cyfrifoldeb y Sefydliad Addysg Uwch yw sicrhau bod myfyrwyr, yn ystod y broses gynefino cyn mynd ar leoliad, yn cael gwybod am y broses ar gyfer codi a chyfeirio pryderon a chwynion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol gwahaniaethu.

11.3 Bydd Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau yn cydweithio i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael yr wybodaeth gynefino ofynnol cyn ymgymryd â Phrofiadau Dysgu i Ymarfer, ac yn ei derbyn, gan gynnwys sut i gael mynediad annibynnol at gyfrifiadur, llyfrgell ac adnoddau dysgu eraill. Mae'r Darparwr Lleoliad hefyd yn cytuno i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyflwyniad lleol i'r Amgylchedd Dysgu Ymarfer sydd wedi'i drefnu iddynt. Gellir cynefino drwy brosesau wyneb yn wyneb neu e-gynefino.

11.4 Bydd Goruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer, Addysgwyr Ymarfer (neu rolau cyfatebol), a staff Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o ofynion damcaniaethol ac ymarferol eu rhaglen berthnasol ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu ar gyfer cyflawni.

11.5 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i roi gwybod i fyfyrwyr nad ydynt yn cael ymgymryd ag unrhyw ofal heb oruchwyliaeth neu nad ydynt yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol, neu nad ydynt yn dangos medrusrwydd.

11.6 Bydd Darparwyr Lleoliadau yn sicrhau bod Profiadau Dysgu Ymarferol yn cydymffurfio â pholisïau gweithio unigol Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau.

11.7 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i roi gwybod i fyfyrwyr, lle bo hynny'n berthnasol, na ddylent fod yn dyst i ewyllysiau na chymryd rhan mewn unrhyw gytundeb cyfreithiol neu breifat arall.

11.8 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i roi gwybod i fyfyrwyr ei bod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r holl reoliadau, polisïau a gweithdrefnau sy'n weithredol yn yr Amgylchedd Dysgu Ymarfer, oni bai fod gweithdrefnau/polisïau o'r fath yn groes i godau ymarfer proffesiynol neu unrhyw gyfraith sydd mewn grym bryd hynny.

11.9 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am y gofyniad eu bod yn cydymffurfio â'r Codau Ymddygiad Proffesiynol perthnasol ar gyfer y proffesiwn o'u dewis. Lle nad yw myfyriwr yn cydymffurfio, bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn ymchwilio'n ffurfiol i'r sefyllfaoedd hyn a, lle bo angen, yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ymddygiad myfyrwyr Addasrwydd i Ymarfer Sefydliad Addysg Uwch, yn cael eu rhoi ar waith.

11.10 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n ffurfiol gyda'r Darparwr Lleoliad fel sy'n briodol i bob amgylchiad. Nid yw methiant myfyriwr i gydymffurfio â Chodau Ymddygiad Proffesiynol yn atal y Sefydliad Darparu Lleoliadau rhag cynnal ymchwiliadau fel sy'n ofynnol gan eu trefniadau a'u gofynion llywodraethu.

11.11 Lle bo'n berthnasol, bydd y Sefydliad Addysg Uwch a/neu'r Darparwr Lleoliad yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o Ddeddf Erthylu 1967, gan gyfeirio at y cymal 'wrthwynebiad anghyson', Adran 4 (1) Deddf Erthylu 1967 cyn iddynt gael eu dyrannu ar gyfer profiad mewn wardiau, adrannau, neu theatrau llawdriniaeth lle gallent fod yn ymwneud â gofalu am gleifion sy'n cael erthyliadau. Mae'r hawl i wrthwynebiad cydwybodol yn ymestyn dim ond i'r weithdrefn wirioneddol o erthyliad, nid i ofalu cyn neu ar ôl y driniaeth.

11.12 Cyn cofrestru ar gyfer pob cwrs, bydd gofyn i fyfyrwyr gadarnhau eu prawf sgrinio iechyd galwedigaethol. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch, ar y cyd â'r Darparwr Lleoliad, yn sicrhau bod y canllawiau presennol yn cael eu dilyn o ran brechiadau myfyrwyr.

11.13 Os nad yw myfyrwyr yn gallu cael eu brechu neu'n gwrthod cael eu brechu, bydd asesiad risg unigol yn cael ei gynnal gan y Sefydliad Addysg Uwch mewn partneriaeth â'r Darparwr Lleoliad, i bennu pa mor addas yw'r myfyriwr i fynd i Amgylchedd Dysgu i Ymarfer. Gall y Sefydliad Addysg Uwch, mewn trafodaeth â'r Darparwr Lleoliad, archwilio a oes Lleoliad arall ar gael. Os yw myfyrwyr yn dal yn anfodlon neu'n methu cael eu brechu, bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn tynnu sylw at yr effaith y gallai hyn ei chael ar weddill astudiaethau'r myfyriwr.

11.14 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod gan bob myfyriwr diwtor personol (neu fentor academaidd) a bod Darlithydd Cyswllt priodol yn cael ei nodi ar gyfer pob Lleoliad. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod staff yn yr Amgylchedd Dysgu i Ymarfer yn cael gwybod enwau a threfniadau cyswllt addysgol, yn ôl yr angen.

11.15 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i ddarparu gwisg safonol i bob myfyriwr (gan gynnwys bathodyn enw a bathodyn diogelwch) sy'n berthnasol i ofynion eu rhaglen, y mae'n rhaid eu gwisgo yn ystod yr holl Brofiadau Dysgu i Ymarfer. Lle

bo'n berthnasol, bydd y Partïon yn gyfrifol am ddarparu unrhyw Gyfarpar Diogelu Personol ychwanegol a dillad sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch wrth ddilyn gweithdrefnau penodol. Bydd y Partïon yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn cydymffurfio â pholisi gwisg Cymru-gyfan.

11.16 Os nad yw myfyriwr yn gallu mynd i Leoliad oherwydd salwch neu amgylchiadau eraill, mae'r Partïon yn cytuno mai'r myfyriwr sy'n gyfrifol am roi gwybod am ei absenoldeb dros y ffôn i'r sawl sy'n gyfrifol am y Lleoliad neu reolwr dynodedig. Mae'r Partïon hefyd yn cytuno bod yn rhaid i'r myfyriwr hefyd gysylltu â'r Sefydliad Addysg Uwch yn unol â'r drefn y cytunwyd arni.

11.17 Os bydd myfyriwr yn methu mynd i Leoliad ac nad yw'n cysylltu ag ardal y lleoliad, bydd y Darparwr Lleoliad yn sicrhau y bydd yn cysylltu â'r Sefydliad Addysg Uwch ynghylch yr absenoldeb nad yw wedi cael gwybod amdano cyn gynted ag y bo modd o fewn yr un cyfnod shifft ag y byddai'r myfyriwr wedi ymgymryd ag ef.[9] Bydd y Darparwr Lleoliad hefyd yn sicrhau bod monitro presenoldeb yn cael ei gofnodi yn unol â gofynion y rhaglen.

11.18 Bydd tîm lleoliadau'r Sefydliad Addysg Uwch yn rhoi gwybod i'r Darparwr Lleoliad a'r Hwyluswyr Addysg Ymarfer (neu rolau cyfatebol) am y canlynol:

- Enwau'r myfyrwyr a ddyrannwyd i bob Amgylchedd Dysgu i Ymarfer.
- Rhestrau wedi'u diweddaru o Ddarlithwyr Cyswllt.
- Dogfen bolisi lleoliadau'r Sefydliad Addysg Uwch ar hyn o bryd.
- Hysbysiad o gam cyfredol myfyriwr ar y rhaglen.
- P'un ai a yw'r myfyriwr mewn Lleoliad am yr eildro.[10]

11.19 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn annog myfyrwyr i ymgysylltu â'u Rheolwr Lleoliadau/Addysgwr Ymarfer dynodedig cyn dechrau eu Profiad Dysgu i Ymarfer.

11.20 Bydd y myfyriwr yn gweithio'r oriau gofynnol fel a bennir ar gyfer y rhaglen dan sylw ac yn dilyn patrwm gweithio arferol yr Amgylchedd Dysgu i Ymarfer y mae wedi'i neilltuo iddo.

12. Datblygu, Adolygu ac Ansawdd Rhaglenni

12.1 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i annog a chefnogi staff priodol i gymryd rhan gyda chydweithwyr o'r Sefydliadau Addysg Uwch mewn gweithgareddau sy'n cefnogi addysg a hyfforddiant. Bydd gweithgareddau o'r fath yn cynnwys:

- Datblygu'r cwricwla.
- Aelodaeth o bwyllgorau rhaglenni.
- Prosesau cynllunio ansawdd, rheoli, sicrwydd a gwella.

12.2 Mae'r Partïon yn cadw'r hawl i adolygu Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer gan ddefnyddio dogfennau archwilio Sefydliadau Addysg Uwch gyda'r nod o sicrhau

[9] Os yw hyn yn disgyn ar shifft nos, penwythnos, neu ŵyl banc, dylid dilyn polisïau a gweithdrefnau lleol.
[10] Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn annog y myfyriwr i rannu gwybodaeth berthnasol i'w helpu gyda'i ddysgu i ymarfer parhaus gyda Goruchwylwyr Ymarfer fel rhan o'r contract dysgu wedi'i negodi ar ddechrau ei leoliad.

amgylchedd dysgu o safon ac argaeledd goruchwyliaeth ac asesiad priodol o fyfyrwyr.

12.3 Bydd yr archwiliad addysgol yn ymgymeriad ar y cyd rhwng staff perthnasol yr Amgylchedd Dysgu Ymarfer a staff Sefydliadau Addysg Uwch. Yn dilyn archwiliad addysgol, bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei lunio gan ddefnyddio'r profforma y cytunwyd arno a, lle bo angen, bydd y Partïon yn cytuno ar gamau gweithredu ac argymhellion ac yn eu hadolygu o fewn amserlen y cytunir arni.

12.4 Bydd tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer Amgylchedd Dysgu i Ymarfer i gynnig Profiadau Dysgu Ymarfer i fyfyrwyr yn cael di ddilyn gyda thrafodaeth lawn rhwng y Sefydliad Addysg Uwch a'r Rheolwr Lleoliadau. Bydd hyn yn cael ei dynnu'n ôl ar unwaith os bydd addysg neu les myfyriwr neu ddiogelwch y cyhoedd mewn perygl.

12.5 Bydd y Darparwr Lleoliad a'r Sefydliad Addysg Uwch yn adolygu ac yn asesu risg ar y cyd pan fydd pryderon yn cael eu codi am Amgylchedd Dysgu i Ymarfer a allai olygu bod angen tynnu cymeradwyaeth yn ôl fel Amgylchedd Dysgu i Ymarfer. Lle bo'n briodol, bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn gweithio gyda'r Darparwr Lleoliad i roi cynllun adleoli ar waith.

12.6 Bydd gan y Darparwr Lleoliad a'r Sefydliad Addysg Uwch system lle gall myfyrwyr uwchgyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt am y ddarpariaeth ansawdd gofal, neu oruchwylio ac asesu ymarfer o fewn yr amgylchedd dysgu. Mae'r ddau Barti yn cytuno i ddwyn hyn i sylw'r holl fyfyrwyr.

13. Sicrhau Ansawdd

13.1 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn sicrhau bod unrhyw adroddiadau perthnasol gan yr ASA, y Rheoleiddiwr Iechyd/Gofal Cymdeithasol neu'r Corff Proffesiynol ar eu rhaglenni sy'n effeithio'n sylweddol ar ddarparu Lleoliadau yn cael eu huwchgyfeirio i AaGIC a'r Darparwr Lleoliad o fewn 5 diwrnod gwaith.

Mae hyn yn cyfeirio at bryderon 'lefel uchel' am Leoliad, fel y nodir yn nogfen Caffael AaGIC ar gyfer darparu Gwasanaethau Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Iechyd Proffesiynol (Cam 1 - 2021) lle mae Amgylchedd Dysgu i Ymarfer wedi cael ei dynnu'n ôl oherwydd pryderon a godwyd gan fyfyriwr/myfyrwyr, pryderon diogelu, neu oherwydd adroddiad digwyddiad niweidiol difrifol. Rhaid i'r Sefydliad Addysg sy'n uwchgyfeirio pryder rannu gwybodaeth gyda darparwyr addysg eraill gan ddefnyddio'r amgylchedd dysgu i ymarfer.

13.2 Bydd AaGIC yn casglu data Sefydliadau Addysg Uwch a Darparwyr Lleoliadau yng nghyswllt dysgu i ymarfer yn unol â phrosesau monitro contractau parhaus a meini prawf mesur perfformiad y cytunwyd arnynt.

13.3 Mae gan reoleiddwyr proffesiynol / AaGIC, ac archwilwyr allanol swyddogaeth monitro ansawdd rhaglenni ac mae'n ofynnol iddynt gwrdd â myfyrwyr, Goruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer/Addysgwyr Ymarfer ac ymweld â Lleoliadau. Pan wneir ceisiadau i gwrdd â staff sy'n seiliedig ar ymarfer a/neu

ymweld â Lleoliad, gwneir trefniadau'n uniongyrchol â'r Sefydliad Addysg Uwch drwy gydgysylltu â'r Darparwr Lleoliad sy'n gyfrifol.

14. Cwynion a phryderon

14.1 Os bydd cwyn yn cael ei gwneud yn erbyn myfyriwr yn ystod Lleoliad a ddyrannwyd, gall y Darparwr Lleoliad gychwyn ymchwiliad, ond rhaid rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch am y mater o fewn 24 awr.

Bydd cwynion yn erbyn myfyrwyr yn cael eu hymchwilio'n ffurfiol yn unol â gweithdrefn ddisgyblu'r Sefydliad Addysg Uwch a/neu'r corff rheoleiddio perthnasol. Nid yw hyn yn atal y Darparwr Lleoliad rhag cynnal ymchwiliadau fel sy'n ofynnol gan ei drefniadau llywodraethu sefydliadol.

14.2 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cytuno i roi gwybod i'r Darparwr Lleoliad am ganlyniad penderfyniad Addasrwydd i Ymarfer o ran unrhyw achlysur a ddigwyddodd yn uniongyrchol tra bo'r myfyriwr ar Leoliad penodol ac wedi effeithio ar ei allu i gwblhau'r Lleoliad.

14.3 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i roi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch os yw agwedd neu ymddygiad proffesiynol myfyriwr yn peri pryder sylweddol yn ystod Lleoliad. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr a allai fod ar lwybr hyblyg ac mae gan effaith camau disgyblu yn eu rôl barhaol oblygiadau i'w statws myfyriwr.

14.4 Bydd y Darparwr Lleoliad a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cydweithredu i ateb unrhyw gŵyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth / gofalwr o ran esgeulustod clinigol neu anaf personol sy'n ymwneud â myfyriwr yn ystod Profiad Dysgu i Ymarfer. Bydd y Darparwr Lleoliad a'r Sefydliad Addysg Uwch yn dilyn polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer rheoli cwynion a digwyddiadau.

Os bydd angen i fyfyriwr ddarparu datganiad ffeithiol ynghylch digwyddiad / cwyn glinigol anffafriol, bydd y Darparwr Lleoliad yn cysylltu â'r Arweinydd Rhaglen Sefydliadau Addysg Uwch perthnasol i ofyn am hyn, fel bod y myfyriwr yn cael cefnogaeth a chyngor priodol, gyda mynediad at ddogfennau perthnasol i ysgrifennu datganiad cywir. Ni ddylid cysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr am ddatganiadau o'r fath.

14.5 Rhaid rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad anffafriol y bydd myfyriwr yn ei ddioddef yn ystod Lleoliad a ddyrannwyd. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad perthnasol yn ymchwilio'n ffurfiol i faterion o'r fath. Dylid dilyn cyfranogiad yr arweinydd Iechyd a Diogelwch a'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau (Atodiad 2).

14.6 Yn ystod Lleoliad, os yw myfyriwr yn dymuno codi pryder, cwyn neu fater diogelu yng nghyswllt Amgylchedd Dysgu i Ymarfer, bydd y myfyriwr yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn ymchwilio i gŵyn y myfyriwr yn unol â pholisi a gweithdrefn lleol.

14.7 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn rhoi gwybod i AaGIC am amgylchiadau lle mae angen tynnu Lleoliadau'n ôl neu lle maent yn destun cynlluniau gwella parhaus oherwydd cwynion difrifol am safonau addysgol neu faterion diogelu.

15. Diswyddo ac atal dros dro

15.1 Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw fyfyriwr o Amgylchedd Dysgu i Ymarfer yn ôl ar unrhyw adeg, yn dilyn trafodaeth gyda staff perthnasol y Darparwr Lleoliad. Bydd penderfyniad o'r fath yn seiliedig ar dystiolaeth dryloyw nad yw'r myfyriwr yn cael profiad priodol neu os nad yw'r trefniadau yn y Cytundeb hwn yn cael eu cadarnhau.

15.2 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cadw'r hawl i dynnu myfyriwr o Amgylchedd Dysgu i Ymarfer os yw'n credu bod hynny'n angenrheidiol oherwydd ymddygiad neu addasrwydd proffesiynol y myfyriwr. Bydd y Darparwr Lleoliad yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch ar unwaith yn yr achos hwn.

15.3 Os, ym marn y Rheolwr Darparwr Lleoliad, bod sail resymol dros amau y gallai myfyriwr fod yn anaddas i barhau i ymarfer mewn Amgylchedd Dysgu i Ymarfer er enghraifft, yn sgil alcohol neu gyffuriau, neu os oes sail resymol dros amau y gallai myfyriwr fod wedi cyflawni trosedd neu weithred o gamymddwyn difrifol sy'n berthnasol i natur yr Amgylchedd Dysgu i Ymarfer, gall y Darparwr Lleoliad atal, heb ragfarn, Profiad Dysgu i Ymarfer y myfyriwr. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd y Darparwr Lleoliad yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi lles y myfyriwr ac i sicrhau bod y myfyriwr yn gadael yr Amgylchedd Dysgu Ymarfer a'r adeilad yn ddiogel.

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw waharddiad o'r fath i'r Sefydliad Addysg Uwch cyn gynted â phosibl. Bydd y Sefydliad Addysg Uwch yn ymchwilio'n ffurfiol i sefyllfaoedd lle caiff myfyrwyr eu hatal dros dro. Fel yng nghymalau 11.8 a 14.1, nid yw hyn yn golygu na fydd y Darparwr Lleoliad yn cynnal ymchwiliadau fel sy'n ofynnol dan y trefniadau a'r gofynion llywodraethu. Os yw'r myfyriwr yn destun Ymchwiliad Adran 5 (Gweithdrefn Diogelu Cymru 2019). Adran 5 – diogelu honiadau/pryderon am ymarferwr neu'r rheini sy'n gweithio mewn sefyllfa o ymddiriedaeth), bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn cydweithredu'n llawn â'r broses a'r ymchwiliad, gan sicrhau bod y myfyriwr yn cael ei gefnogi'n llawn.

15.4 Bydd y Sefydliad Addysg Uwch a'r Darparwr Lleoliad yn cydweithredu mewn unrhyw achos disgyblu a ddilynir mewn cysylltiad â myfyriwr mewn Amgylchedd Dysgu i Ymarfer. Bydd gan y myfyriwr opsiwn i gynrychiolydd Sefydliad Addysg Uwch fod yn bresennol.

16. Yswiriant ac atebolrwydd

16.1 Mae'r Darparwr Lleoliad yn cytuno i ddal a chynnal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac yswiriant priodol arall, yn unol ag arferion busnes safonol, i gynnwys staff a myfyrwyr y Sefydliad Addysg Uwch yng nghyswllt anaf personol, marwolaeth neu anaf, colled neu ddifrod i eiddo ac atebolrwydd dirprwyol.

16.2 Cefnogir myfyrwyr gan y Darparwr Lleoliad i ymgymryd â dulliau dysgu ymarferol dan y prosesau a bennir yn y Cytundeb hwn. Nid oes angen llunio contractau anrhydeddus unigol ar gyfer myfyrwyr.

17. Proses Datrys Anghydfodau

17.1 Bydd y Partïon yn ymdrechu'n ddidwyll i ddatrys unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Cytundeb hwn neu mewn perthynas ag ef yn ddi-oed drwy negodi rhwng eu cynrychiolwyr awdurdodedig.

17.2 Os na ellir datrys y mater drwy negodi, bydd y Partïon, yn ddidwyll, yn ceisio datrys yr anghydfod neu'r hawliad drwy weithdrefn datrys anghydfod amgen y cytunir arni'n lleol rhwng y Partïon. Ni fydd cyflawni rhwymedigaethau o dan y Cytundeb, ar wahân i'r mater y dadleuir yn ei gylch, ddod i ben neu gael ei ohirio drwy ddefnyddio gweithdrefn o'r fath.

17.3 Os na ellir datrys anghydfod yn lleol, rhaid uwchgyfeirio'r sefyllfa i'r uwch reolwr, y Deon yn y Sefydliad Addysg Uwch fel arfer ac i'r Cyfarwyddwr Gweithredol priodol yn GIG Cymru gan gynnwys y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Nyrsio, Therapïau neu Wyddor Gofal Iechyd. Mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys partïon eraill, mae angen uwchgyfeirio at yr uwch reolwr perthnasol sy'n gyfrifol am y sefydliad Darparu Lleoliadau. Os na ellir cytuno ar ddatrysiad ar y lefel hon, bydd y Partïon yn gwahodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gymrodeddu.

18. Terfynu

18.1 Gellir terfynu'r Cytundeb hwn mewn unrhyw un neu ragor o'r digwyddiadau canlynol:

a. Os nad yw diben y Cytundeb hwn yn cael ei gynnig mwyach gan y Darparwr Lleoliad neu os yw wedi peidio â bod yn ofynnol gan bob un neu unrhyw un o'r Partïon yn y Cytundeb hwn.

b. Os yw'r naill Barti neu'r llall yn torri ei rwymedigaethau neu'n methu cyflawni telerau'r Cytundeb hwn ac na ellir unioni'r sefyllfa.

c. Pan fydd Parti yn torri ei rwymedigaethau neu'n methu cyflawni telerau'r Cytundeb hwn, a bod y Parti hwnnw ("y Parti Nad yw'n Cydymffurfio") yn methu gweithredu'r Cynllun Gwella a fydd yn cael ei baratoi a'i weithredu yn unol â chymal 18.2.

18.2 Pan fo modd cywiro methiant neu dor-amod, rhaid i'r Parti Nad yw'n Cydymffurfio roi gwybod i'r Parti arall yn ysgrifenedig yn cadarnhau'r rhwymedigaethau nad yw'n gallu eu cyflawni, y rheswm/rhesymau dros hyn a'r camau unioni sydd i'w cymryd i unioni'r methiant neu'r tor-amod ("y Cynllun Gwella"). Ni fydd y dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r cam(au) a nodir yn y Cynllun Gwella yn fwy na thri mis ar ôl i'r tor-amod neu'r diffyg godi gyntaf, oni chytunir fel arall gan y Partïon.

18.3 Rhaid i'r Parti sy'n terfynu'r Cytundeb roi i'r Parti arall ("y Parti sy'n Derbyn") hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw sy'n nodi'r dyddiad y bydd y terfyniad yn dod

i rym a rhaid i'r dyddiad hwnnw beidio â bod yn llai na 3 mis o'r dyddiad y cafodd yr hysbysiad terfynu ei dderbyn gan y Parti sy'n Derbyn.

18.4 Os yw'r Cytundeb hwn i gael ei derfynu, dylai'r naill Barti neu'r llall roi rhybudd ar y sail nad yw myfyrwyr presennol sydd ar Brofiad Dysgu i Ymarfer dan anfantais.

19. Hysbysiadau

19.1 Bydd hysbysiad a roddir i Barti o dan y Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef yn ysgrifenedig ac yn cael ei gyflwyno i'r Parti drwy e-bost neu drwy'r post (dosbarthiad arbennig neu ofyn am lofnod) yn y cyfeiriad a roddir yn y Cytundeb hwn neu fel y nodir fel arall yn ysgrifenedig i'r Parti arall.

19.2 Ystyrir bod hysbysiadau a gyflwynir drwy e-bost yn cael eu cyflwyno ar adeg trosglwyddo os cânt eu hanfon yn ystod oriau gwaith arferol ac ar y diwrnod gwaith nesaf fel arall. Ystyrir bod hysbysiadau a gyflwynir drwy'r post yn cael eu danfon am 9.00am ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl eu postio.

20. Amrywiad

20.1 Yn ddarostyngedig i gymal 20.2, dim ond drwy gytundeb ysgrifenedig rhwng y Partïon y caniateir i'r Cytundeb hwn, gan gynnwys yr Atodiad, gael ei amrywio.

20.2 Mae unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn amodol ar bod y Partïon yn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig benodol ymlaen llaw gan AaGIC, ni ellir atal neu ohirio cymeradwyaeth o'r fath yn afresymol. Ni fydd amrywiad a gynigir gan y Partïon yn dod i rym oni bai fod AaGIC wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig benodol ymlaen llaw i'r Partïon.

21. Llofnodwyr

Cytundeb Lefel Leol rhwng

……
(Sefydliad Addysg Uwch)

A

……
(Darparwr Lleoliad/Sefydliad)

YNG NGHYSWLLT YR AMGYLCHEDD DYSGU I YMARFER AR GYFER MYFYRWYR SY'N CWBLHAU ADDYSG GOFAL IECHYD ("Y Cytundeb")

Llofnod SAU		**HEI Signature**
Teitl		**Dynodiad**
Ar ran		**On behalf of**
Dyddiad		**Dyddiad**
Llofnod Darparwr Lleoliad		**Placement Provider Signature**
Teitl		**Dynodiad**
Ar Ran		**On behalf of**
Dyddiad		**Dyddiad**

21. Geirfa

Asesydd Academaidd	Mae Aseswyr Academaidd Sefydliadau Addysg Uwch yn casglu ac yn cadarnhau cyflawniad myfyrwyr o ran hyfedredd a chanlyniadau dysgu ar draws pob rhan o raglenni unigol.
Hwyluswyr Addysg Cartrefi Gofal	Mae Hwyluswyr Addysg Cartrefi Gofal yn swyddi a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithio yn AaGIC i arwain ar fentrau penodol i alluogi cartrefi gofal Awdurdodau Lleol i fod yn Amgylcheddau Dysgu Ymarfer dynodedig ar gyfer myfyrwyr nyrsio.
Llywodraethu clinigol	Llywodraethu clinigol yw'r system y mae sefydliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn atebol amdani o ran monitro a gwella ansawdd eu gofal a'u gwasanaethau yn barhaus, ac am ddiogelu safon uchel y gofal a'r gwasanaethau.
Dyddiad Cychwyn	Mae iddo'r ystyr a roddir iddo yng nghymal 3.1.
Deddfwriaeth Diogelu Data	Yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data a phreifatrwydd sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys GDPR y DU; Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) (a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (SI 2003/2426) fel y'u diwygiwyd, a'r canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu awdurdod rheoleiddio perthnasol arall.
Comisiynydd Addysg	Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn comisiynu rhaglenni addysg gofal iechyd i wella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer staff gofal iechyd gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol. Mae AaGIC yn comisiynu rhaglenni addysg gan Sefydliadau Addysg Uwch ar sail anghenion a nodir drwy gynllunio a datblygu'r gweithlu.
Llywodraethu addysgol	Llywodraethu addysgol yw'r systemau a'r safonau y mae sefydliadau'n eu defnyddio i reoli eu gweithgareddau addysgol ac i ddangos atebolrwydd dros ansawdd addysg a'i wella'n barhaus. Gall llywodraethu addysgol fod yn rhan o fframwaith llywodraethu integredig ehangach sy'n cynnwys elfennau fel archwilio clinigol, rheoli risg a datblygu sefydliadol.

Addysg Ryngbroffesiynol	Mae Addysg Ryngbroffesiynol yn digwydd pan fydd dau neu fwy o broffesiynau yn dysgu am ei gilydd, dysgu gan ei gilydd, a dysgu gyda'i gilydd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2010). Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad o gydweithio â'r grwpiau proffesiynol y maent yn debygol o weithio gyda nhw yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae manylebau contract addysg AaGIC yn cynnwys darparu o leiaf 4 wythnos o Leoliad ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd i fyfyrwyr. Gellir rhannu diwrnodau Lleoliadau IPE ar draws y Rhaglen gyfan ac nid oes angen eu cyflwyno mewn un bloc dysgu 4 wythnos.
Deilliannau dysgu	Yr hyfedredd/cymwyseddau y mae'n rhaid i fyfyriwr eu cael erbyn diwedd cyfnod o addysg neu hyfforddiant.
Darlithydd Cyswllt	Rôl y Darlithydd Cyswllt yw gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau dynodedig a staff lleoliadau, cael sicrwydd o ansawdd y goruchwylio a'r asesu ymarfer a ddarperir, cynnig cyngor addysgol a darparu cefnogaeth i fyfyrwyr a staff cofrestredig yn y lleoliad. Mae'r darlithydd cyswllt yn cynnal archwiliadau addysgol ac yn rhoi gwybod i'r Sefydliad Addysg Uwch am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r ddarpariaeth addysg yn ei feysydd cyfrifoldeb. Ar gyfer rhaglenni Gwyddor Gofal Iechyd, bydd Hwylusydd Dysgu Clinigol yn ymgymryd ag agweddau ar gyfrifoldebau rôl Darlithydd Cyswllt.
Asesydd Ymarfer	Mae aseswyr ymarfer yn cynnal asesiadau i gadarnhau cyflawniad myfyrwyr o ran hyfedredd a chanlyniadau rhaglenni ar gyfer dysgu i ymarfer. Ar draws rhaglenni, gelwir yr Asesydd Ymarfer cyfatebol yn Addysgwr Ymarfer, Addysgwr Clinigol, Swyddog/Rheolwr Hyfforddiant.
Profiadau Dysgu i Ymarfer	Profiad lle mae myfyriwr yn cael addysg a hyfforddiant (clinigol) sy'n seiliedig ar ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol fel rhan o'r rhaglen o'u dewis.
Addysgwr Ymarfer	Term i ddynodi rhywun sy'n gyfrifol am addysg dysgwr yn ystod ei ddysgu seiliedig ar ymarfer. Rhaid iddynt feddu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol i gefnogi dysgu diogel ac effeithiol ac, oni bai bod trefniadau eraill yn briodol, rhaid iddynt fod ar y rhan berthnasol o'r gofrestr broffesiynol. Mae hyn yn un o ofynion y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Rhaid i Addysgwyr Ymarfer ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd

	sy'n briodol i'w rôl, anghenion dysgwyr a chyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen. Mewn rhaglenni Gwyddor Gofal Iechyd, mae'r Hyfforddwr Arweiniol yn cyfateb i Addysgwr Ymarfer.
Goruchwyliwr Ymarfer	Unigolion sy'n cefnogi dysgu yn unol â chwmpas eu hymarfer er mwyn galluogi myfyrwyr i gyflawni eu hyfedredd a chanlyniadau rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys: - Pobl gofrestredig mewn rôl goruchwyliwr/hyfforddwr cydnabyddedig a chymeradwy. - Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant fel rhan o'u hymarfer clinigol dyddiol. - Staff academaidd o amrywiaeth o ddisgyblaethau sydd â rôl mewn hyfforddiant clinigol. Gall addysgwyr hefyd gynnwys cleifion ac aelodau o'r cyhoedd sydd â rolau mewn addysgu neu hyfforddi rhaglenni, a phobl eraill y mae eu gwybodaeth, eu profiad neu eu harbenigedd yn cael eu defnyddio mewn addysg, dysgu neu hyfforddiant ymarfer. Ar draws rhaglenni, mae'r rhai sy'n cyfateb i Oruchwylwyr Ymarfer yn cael eu galw'n Fentor.
Amgylchedd Dysgu i Ymarfer	Mae amgylcheddau dysgu i ymarfer yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr weithio tuag at gyflawni ac asesu hyfedredd perthnasol y rhaglen sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru proffesiynol. Mae'r Sefydliad Addysg Uwch yn gweithio gyda darparwyr lleoliadau unigol i sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd dysgu yn cael ei lywodraethu a'i archwilio fel sy'n ofynnol. Ar draws rhaglenni, defnyddir y term Amgylchedd Dysgu i Ymarfer yn aml yn gyfystyr â Lleoliad.
Lleoliad	Cyfnod strwythuredig o brofiad a dysgu mewn arbenigedd neu faes ymarfer penodol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.
Hwylusydd Addysg Ymarfer	Mae Hwyluswyr Addysg Ymarfer (a elwir hefyd yn Nyrsys Cyswllt Addysg / Bydwragedd Cyswllt Addysg / Hwylusydd Dysgu Clinigol / Rheolwr Hyfforddiant Clinigol) yn swyddi a ariennir gan AaGIC sy'n gweithio mewn Byrddau Iechyd i gefnogi ansawdd a darpariaeth Amgylcheddau Dysgu i Ymarfer, paratoi Goruchwylwyr Ymarfer / Aseswyr Ymarfer / Addysgwyr Ymarfer i oruchwylio ac asesu myfyrwyr, a chynnal y cyswllt angenrheidiol â staff perthnasol Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi myfyrwyr drwy gydol eu rhaglen.

ASA	Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn gweithio gyda darparwyr Addysg Uwch a chyrff rheoleiddio i gynnal a gwella ansawdd a safonau.
Cofrestrai	Aelod o staff sy'n dal cofrestriad proffesiynol anodedig gyda chorff rheoleiddio penodol.
Defnyddiwr gwasanaeth	Term a ddefnyddir drwy'r ddogfen hon i gyfeirio at bobl/cleifion/cleientiaid/preswylwyr sy'n defnyddio/derbyn gwasanaethau gofal iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.
GDPR y DU	Mae iddo'r ystyr a roddir iddo yn adran 3(10) (fel y'i hategir gan adran 205(4)) o Ddeddf Diogelu Data 2018.

Atodiad 1. Amserlenni comisiynu addysg dangosol

Mae Byrddau Iechyd yn cyflwyno eu rhagamcaniadau o anghenion eu gweithlu yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i AaGIC bob blwyddyn. Mae pob cyflwyniad i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cyfrannu at Gynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant GIG Cymru a Chynllun Lleoliad Blynyddol AaGIC ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae ffigurau'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant Blynyddol yn seiliedig ar ymgynghori â Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid cenedlaethol. Mae'r niferoedd hyn yn adlewyrchu'r anghenion recriwtio disgwyliedig ar draws rhaglenni cyn i'r rheini sydd wedi cofrestru ymuno â'r gweithlu. Amlinellir enghraifft o'r broses yn Ffigur 1.

Bydd cyflwyniadau Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yng ngwanwyn bob blwyddyn yn cyfrannu at Gynllun Addysg a Hyfforddiant AaGIC ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae ffigurau Cynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant GIG Cymru yn cael eu hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru graffu arnynt i'w cadarnhau'n derfynol yn yr hydref bob blwyddyn. Bydd Cynllun Lleoliad Blynyddol AaGIC yn cael ei gyhoeddi erbyn y Gwanwyn canlynol ac ar ôl i lythyrau comisiynu gael eu hanfon at bob Sefydliad Addysg Uwch.

Ffigur 1.

Cyflwyno data Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd	Cynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant GIG Cymru	Llythyrau comisiynu Sefydliadau Addysg Uwch	Cynllun Lleoliad Blynyddol AaGIC	Dechrau'r rhaglen	Cwblhau'r rhaglen
Mae angen i bob Bwrdd Iechyd gyflwyno rhagamcanion ar gyfer anghenion gweithlu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i AaGIC erbyn Ionawr/Chwefror bob blwyddyn.	Datblygir Cynllun Addysg a Hyfforddiant blynyddol yn dilyn ymgynghoriad y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ar hyn fel arfer erbyn hydref bob blwyddyn.	Mae AaGIC yn anfon llythyrau at bob Sefydliad Addysg Uwch yn nodi'r niferoedd comisiynu ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.	Cyhoeddwyd erbyn y gwanwyn bob blwyddyn.	Medi/Gwanwyn 2023.	2026 **ar gyfer rhaglenni 3 blynedd.*
Erbyn Chwefror 2022	Erbyn hydref 2022	Erbyn Ionawr 2023	Erbyn Mawrth 2023	Medi/Gwanwyn 2023	Medi/Gwanwyn 2026

Atodiad 2. Meincnod ar gyfer y broses adrodd am ddigwyddiadau



D.S. Rhaid cefnogi'r myfyriwr ym mhob cam o'r broses cofnodi digwyddiadau. Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn sicrhau bod y prosesau hyn yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau codi ac uwchgyfeirio pryderon